# Pwy enwebwch chi am Wobrau Amlygu?

#GrymusoAber




**I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gwahoddwn chi i enwebu aelodau o staff sy'n nodi eu bod yn fenywod neu'n anneuaidd er mwyn cydnabod eu cyfraniad i ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth. Anogwn chi i edrych y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu dathlu'n draddodiadol ac i gyfrannu i amharu ar y dulliau amlycaf o gynrychioli llwyddiant.**

Mewn amgylchedd ymchwil sy’n ffynnu, yn rhy aml mae rhai cyfraniadau penodol yn mynd heb gael eu gweld, o gyfraniadau academyddion nad yw eu hymchwil yn cael digon o gydnabyddiaeth, i gyfraniadau technegwyr, llyfrgellwyr, gweinyddwyr, a llawer mwy. Mae rhywedd yn chwarae rhan yn aml. Croesewir hefyd enwebiadau sy'n adlewyrchu'r gorgyffwrdd rhwng mathau o hunaniaeth, megis rhywedd a hil, ethnigrwydd, crefydd, oed, rhywioldeb, dosbarth, statws yn rhiant, rhai ag anableddau, neu unrhyw hunaniaeth berthnasol arall . Os ydynt yn gymwys yn ôl y meini prawf, bydd Gwobrau Amlygu yn cydnabod pawb a enwebir.

Ysbrydolir y gwobrau gan fenywod yn ein hanes a fu’n arloeswyr, megis Iris de Freitas, a astudiodd fotaneg, y Gyfraith ac ieithoedd modern ym Mhrifysgol Aberystwyth o 1919, a hi yn nes ymlaen oedd y fenyw gyntaf i ymarfer y Gyfraith yn y Caribî. Ni ddaeth ei chyflawniadau eithriadol i’r amlwg tan yn lled ddiweddar a’r hyn mae’r Gwobrau eisiau ei wneud yw sicrhau bod hyd a lled cyfraniadau staff i ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cael ei gydnabod heddiw.

**I wneud enwebiad, anfonwch 1 dudalen A4 yn rhoi:** ((1) Enw, swydd ac adran y sawl a enwebir a’r un sy’n enwebu; (2) pam eich bod yn gwerthfawrogi eu gwaith yn y Brifysgol; (3) pam y credwch y dylid dathlu eu cyfraniad (4) ffotograff sy’n dderbyniol gan yr un a enwebir (neu ddelwedd a ddewiswyd ganddynt), (5) Cadarnhad bod yr unigolyn wedi cydsynio. (100-200 o eiriau, Arial, ffont maint 12). Cofiwch y bydd eich enwebiad yn cael ei gyhoeddi. Anfonwch yr enwebiadau erbyn 1af Mawrth at: **caw113@aber.ac.uk.**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

RHWYDWAITH MENYWOD MEWN YMCHWIL

WOMEN IN RESEARCH NETWORK